



Gwerthusiad o Raglen Dyfodol Gwell y Gronfa Loteri Fawr

Adroddiad Gwerthuso Blwyddyn 3: Crynodeb



Gorffennaf 2016

James Ronicle and Catie Erskine



Crynodeb Gweithredol

Lansiwyd y rhaglen Dyfodol Gwell gan y Gronfa Loteri Fawr ('y Gronfa') ym mis Mawrth 2011. Darparodd y rhaglen gyllid i 26 o brosiectau peilot ar draws y Deyrnas Unedig i brofi ymagweddau gwahanol at wella canlyniadau ar gyfer plant mewn teuluoedd sydd ag anghenion lluosog a chymhleth. Ym mis Hydref 2011, dyfarnodd y Gronfa gcontract gwerthuso a dysgu i gonsortiw a arweinir gan Ecorys UK gydag Ipsos, yr Athro Kate Morris a Family Lives.

Dyma'r trydydd adroddiad interim ar gyfer y gwerthusiad. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar arfer da a ddatblygwyd gan y prosiectau Dyfodol Gwell, gan asesu'r ddau fodel arfer, gwersi a ddysgwyd ac i ba raddau y mae'r prosiectau wedi rhannu arfer da gyda gwasanaethau cyhoeddus a mudiadau Menter Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol (VCSE) hefyd. Yn benodol, mae gan y trydydd adroddiad ymagwedd thematig ac mae'n taflu goleuni ar yr agweddau allweddol a ganlyn ar weithredu prosiectau:

1. Adeiladu perthnasoedd gydag ysgolion cynradd
2. Adeiladu gwydnwch cymunedol
3. Cryfhau lles cymdeithasol ac emosiynol teuluoedd

Gellir dod o hyd i'r adroddiadau gwerthuso blynyddol yn: welsh.improvingfutures.org.

Diweddariad Cynnydd

“Mae'r prosiect yn mynd o nerth i nerth.” (Rheolwr Prosiect Dyfodol Gwell)

Mae'r prosiectau wedi gwneud cynnydd da dros y 18 mis diwethaf. Mae llawer o reolwyr prosiect yn teimlo bod eu prosiectau bellach wedi mynd yn gwbl sefydledig yn yr ardal leol ac maen nhw'n datblygu eu modelau cyflwyno, gan eu haddasu i adeiladu ar yr agweddau sy'n gweithio'n arbennig o dda.

Erbyn 7 Mawrth 2016, rydym yn amcangyfrif yr oedd y prosiectau Dyfodol Gwell ar y cyd wedi cefnogi 7,062 o deuluoedd. ¹ Ar gyfartaledd roedd pob prosiect wedi cefnogi 272 o deuluoedd, gydag amrywiad rhwng 147 a 496. Adlewyrchodd yr amrywiad hwn fodolau cefnogaeth a dwysedd cefnogaeth amrywiol y prosiectau.

Ar y cyfan mae'r prosiectau'n gwneud cynnydd da gyda'r teuluoedd sydd wedi ymadael â'r gefnogaeth; ar gyfartaledd mae chwarter yn llai o deuluoedd yn wynebu'r problemau mwyaf dyrys. Mae meysydd cynnydd penodol yn cynnwys y canlynol:

- Mae canran y teuluoedd â phlant sydd ag ymddygiad aflonyddgar aflonyddus a threisgar parhaus wedi haneru (o 17% [469 o deuluoedd] i 8.5% [238 o deuluoedd] – gostyngiad o 231 o deuluoedd).
- Mae canran y teuluoedd â phlant sydd â phryderon neu rwystredigaeth magu plant traean yn llai (o 64% [1,786] i 43% [1,188] – gostyngiad o 598).

¹Yn gynnar yn 2016 gofynnodd y Gronfa Loteri Fawr i'r holl brosiectau adrodd ar y nifer o deuluoedd yr oeddent wedi'u cefnogi. Atebodd 21 o'r 26 o brosiectau, gan ddarparu data. At ei gilydd roedd y prosiectau hyn wedi cefnogi 5,704 o deuluoedd. I amcangyfrif cyfanswm nifer y teuluoedd a gefnogwyd, tybiom fod pob un o'r prosiectau yr oedd eu data ar goll wedi cefnogi'r nifer cyfartalog o deuluoedd fesul prosiect (272).

Fodd bynnag, mae'r prosiectau'n dod i gyfnod anodd ac mae cynaladwyedd yn parhau'n broblem. Yn y cam hwn mae'n edrych yn annhebygol y bydd yr holl brosiectau'n parhau ar ôl y grantiau gan y Gronfa Loteri Fawr, ond o ystyried mai prosiect peilot oedd hwn, byddai wedi bod yn afrealistig disgwyl i bob un o'r prosiectau ddod o hyd i ariannu pellach.

Adeiladu perthnasoedd gydag ysgolion cynradd

"Llwyddiant cael y prosiect yw, o'r blaen doedd dim ond yr athrawon, nyrs yr ysgol, a byddem yn ceisio meddwl, 'Beth allwn ei roi ar waith ar gyfer y teuluoedd hyn?', a gyda'r [prosiect Dyfodol Gwell wedi'i leoli yn yr ysgol], yn aml gallant ddweud wrthym, 'O, dyna rywbeth y gall... y prosiect ei wneud', felly mae rhywbeth gennym yn syth." (Athro)

Mae'r prosiectau Dyfodol Gwell wedi torri tir newydd yn eu gwaith gydag ysgolion cynradd. Mae nifer bach iawn o enghreifftiau yn yr ymchwil a gyhoeddwyd o bartneriaethau addysgol gwirfoddol lle mae'r darparwr VCSE yn darparu pecyn cefnogaeth gyfannol i'r teulu cyfan tra'n cael ei leoli o fewn ysgolion cynradd. O ystyried y nifer mawr o brosiectau Dyfodol Gwell sy'n mabwysiadu'r ymagwedd hon, mae'r gwerthusiad yn darparu cyfle unigryw i ddeall cryfderau a heriau'r fath fodel yn llawn. Mae'r gwerthusiad wedi gweld bod yr ymagwedd hon yn llwyddiant. Mae ysgolion a mudiadau VCSE wedi creu partneriaethau gwaith cryf sydd wedi cynhyrchu buddion ar y cyd: maent wedi cryfhau gwaith partneriaeth, helpu teuluoedd i ymwneud â'r ysgolion a'r prosiectau, ac wedi arwain at drosglwyddo gwybodaeth. Mae teuluoedd wedi cyflawni cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd sy'n gysylltiedig â'r ysgol, gan gynnwys ymddygiad, cyrhaeddiad ac ennyn diddordeb rhieni yn yr ysgolion.

Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hwn wedi amlygu rhai o gyfyngiadau'r ymagwedd hon. Mae ennyn diddordeb ysgolion yn anodd. Hefyd, nid yw rhai ysgolion i'w gweld yn blaenoriaethu cyswllt â rhieni neu'r ymagwedd 'plentyn/teulu cyfan', yn ôl rhai o'r prosiectau Dyfodol Gwell a'r teuluoedd yn y Paneli Teuluoedd. Fodd bynnag, mae'r prosiectau wedi dysgu llawer am 'yr hyn sy'n gweithio' wrth ennyn diddordeb ysgolion y mae llawer ohonynt, y gall mudiadau VCSE eraill eu cymhwyso, wedi'u disgrifio yn yr adroddiad llawn. Mae'r adroddiad wedi rhybuddio hefyd am beryglon canolbwyntio'n ormodol ar un lleoliad, a all allgau teuluoedd sydd naill ai heb ymwneud â'r lleoliad hwnnw neu symud ymlaen at leoliadau eraill, ac am bwysigrwydd mabwysiadu 'ymagwedd ddeuol' a gweithio ar draws lleoliadau lluosog.

Yn olaf, mae'r ymchwil wedi amlygu'r heriau y gall y sector gwirfoddol eu hwynebu wrth hygyrchu arian ysgolion. Mae angen i brosiectau ganolbwyntio ar sut maent yn bwriadu hygyrchu arian ysgolion o'r cychwyn cyntaf, a dylunio'r gwasanaeth i gwrdd â'r amcan hwn. Mewn cyfnod lle mae ysgolion yn ymgymryd â rôl y 'comisiynydd' yn gynyddol, mae angen i VCSE ac arianwyr grant fel y Gronfa Loteri Fawr ganolbwyntio'n agosach ar sut y gall prosiectau gael eu comisiynu gan ysgolion.

Adeiladu gwydnwch cymunedol

“Weithiau gall bod yn rhiant fod yn unig iawn. Rhai o'r rhieni hyn - mae'n debygol mai'r bobl y maent yn cyfathrebu â nhw yn y gwasanaeth yw'r unig rai y maent yn dod i gyswllt â nhw. Ac maen nhw'n dychwelyd i'w ffordd o fyw breifat ac unig, ond byddan nhw wedi mynd â rhywfaint o egni i ffwrdd gyda nhw...Mae rhiant hapus yn golygu plentyn hapus. Ac rydych yn edrych ymlaen at ddod yn ôl.” (Rhiant)

Mae'r prosiectau Dyfodol Gwell wedi dangos yr ystod eang o bosibiliadau o ran sut y gall prosiectau teuluol adeiladu ar asedau cymunedol a'u defnyddio a chysylltu teuluoedd â'r asedau hyn. Maent wedi llwyddo mewn rhai meysydd a'i chael hi'n anodd mewn rhai eraill, ond trwy eu gwaith maent wedi dysgu llawer o wersi y gall prosiectau eraill adeiladu arnynt. Mae'r prosiectau hefyd wedi amlygu'r effaith positif y gall cyswllt â'r gymuned ei chael ar deuluoedd - lleihau eu hunigedd cymdeithasol, cynyddu eu rhwydweithiau cefnogi ac adeiladu eu hyder. Mae defnyddio gwirfoddolwyr cymunedol i'w weld yn arbennig o effeithiol; Gall cyrraedd teuluoedd sy'n anodd eu cyrraedd a gweithredu fel carreg gamu er mwyn i deuluoedd sy'n ymadael â'r prosiect adeiladu eu hyder ymhellach.

Fodd bynnag, mae gwaith y prosiectau Dyfodol Gwell hefyd wedi amlygu cyfyngiadau gwaith cymunedol - er ei fod yn bosib adeiladu asedau cymunedol a'u defnyddio mewn cyfnod amser cymharol fyr, ni fydd y rhain o reidrydd yn ennyn diddordeb pob agwedd ar y gymuned. Mae'r her go iawn i'w gweld hefyd o ran medru sicrhau y byddant yn hunangynhaliol. Mae'r ddau bwynt hwn wedi'u cadarnhau mewn astudiaethau eraill o ymdrechion adeiladu asedau cymunedol hefyd, gan awgrymu'r risg y bydd y gwaith hwn yn ymddisbyddu os caiff ei adael i weithredu ar ei ben ei hun. Fel a nodir gan y RSA yn eu hadroddiad '[Connected Communities](#)'², mewn cyfnod o gwtogiadau i gyllidebau awdurdodau lleol, sy'n gweld effeithiau anghymesur ar wasanaethau cymunedol fel canolfannau plant, cwtogir yn sylweddol ar allu gwasanaethau i adeiladu asedau cymunedol. Serch hynny, mae nifer o'r prosiectau Dyfodol Gwell wedi defnyddio'r ffocws a ddarperir gan y rhaglen i arddangos buddion model seiliedig ar asedau, ac mae rhai ohonynt yn dangos addewid o gynladwyedd.

² Matthew, P. et al, 2015. *Community Capital: The Value of Connected Communities*. RSA, Llundain. Gweler: <https://www.thersa.org/discover/publications-and-articles/reports/community-capital-the-value-of-connected-communities>

Cryfhau lles emosiynol a chymdeithasol teuluoedd

“Es i'r cyrsiau i gyd - cryfhau teuluoedd a chymunedau, grymuso er magu plant, ond ni allwn fynegi fy hun. Wedyn dechreuais wrando ar fy hun yn iawn a sylweddolais fy mod wedi colli fy hyder, roeddwn wedi cyflawni popeth yr oeddwn i fod i'w gyflawni ond nid oeddwn yn teimlo'n iawn yn fy hun, felly es i un arall a oedd yn ymwneud â hunan-barch, ac mae hynny wedi gwneud gwahaniaeth mawr.” (Rhiant)

Gellir rhannu'r gefnogaeth iechyd meddwl a ddarperir gan Dyfodol Gwell yn briodol mewn dwy ran:

- hyrwyddo lles a gwydnwch; a
- chefnogi salwch meddwl sydd wedi'i ddiagnosisio a chyfeirio at wasanaethau mwy arbenigol.

Mae'r prosiectau'n darparu ystod o enghreifftiau ymarferol i hyrwyddo lles emosiynol, o gyflwyno cyrsiau penodol i blant ac oedolion, i drefnu gweithgareddau a diwrnodau allan i wella cysylltiadau teuluol. Ymgorfforodd bron pob un o ymagweddau'r prosiectau'r hyn y gwyddys amdano am beth sy'n gweithio i hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol mewn teuluoedd - yn enwedig mewn perthynas ag:

- ymdrin â'r amgylchedd ehangach ar gyfer y plentyn;
- lleihau straen ar y teulu trwy gymorth ymarferol; a
- darparu cyrsiau a hyfforddiant i wella hyder a sgiliau cyflogaeth ar gyfer rhieni.

Mae'r dystiolaeth bod straen, pryder ac unigedd cymdeithasol wedi lleihau yn ystod y Rhaglen yn adlewyrchu'r profiadau a adroddir gan brosiectau: bod eu hymagweddau cefnogi teuluoedd yn effeithiol o ran gwella lles. Cafwyd tystiolaeth hefyd bod achosion o hunan-niweidio wedi gostwng ychydig erbyn i deuluoedd ymadael â'r rhaglen. Gan hynny, gellir defnyddio llawer o'r prosiectau hyn i adeiladu portffolio o ddulliau gwahanol i gefnogi lles teuluoedd cyfan trwy raglen ymyrraeth gynnar.

Mae'r ochr arall i gefnogaeth iechyd meddwl trwy'r rhaglen Dyfodol Gwell yn ymwneud â darparu arweiniad a chefnogaeth i deuluoedd sydd â salwch meddwl tybiedig neu wedi'i ddiagnosisio. Mae hwn yn amlygu rôl bwysig gwasanaethau ymyrraeth gynnar mewn codi ymwybyddiaeth a chefnogi mynediad o fewn grwpiau bregus a allai fod yn unig neu heb fod yn ymwybodol o'u hanghenion eu hunain. Ymgorfforodd rhai prosiectau gefnogaeth glinigol o fewn eu gwasanaethau, megis cwnsela, a oedd yn effeithiol gan fod y gefnogaeth yn haws ei hygyrchu wedyn. Roedd prosiectau nad oeddent yn gallu darparu unrhyw fynediad uniongyrchol i wasanaethau arbenigol yn gyfyngedig yn y ffordd yr oeddent yn cefnogi teuluoedd, gan iddynt ddibynnu ar gyfeirio'r teulu i wasanaethau statudol, sydd â rhestrau aros hir weithiau.

Roedd angen i bron pob prosiect gyfeirio teuluoedd i wasanaeth iechyd meddwl arbenigol, megis CAMHS, mewn rhyw rhinwedd yn ystod y rhaglen. Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu'r ystod o heriau a brofir wrth hygyrchu cefnogaeth briodol.

Wrth edrych tuag at y dyfodol, mae'r prosiectau Dyfodol Gwell yn cyflwyno dysgu ar gyfer gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar o ran buddion hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol a gweithio ar y cyd gyda gwasanaethau statudol. Er mwyn i'r gefnogaeth fod yn fwy effeithiol, mae angen i brosiectau fedru hygyrchu gwasanaethau arbenigol i gefnogi unigolion a theuluoedd sydd ag anghenion dwysach.

Dylanwadu ar ddysgu

***"Mae lot o werth wedi bod yn yr arbrawf [Dyfodol Gwell]... Rydym yn cydweithio'n agos ac yn cymharu a chyferbynnu ymagweddau.... Maent yn gwella'n dealltwriaeth."
(Cynrychiolydd awdurdod lleol)***

Gan mwyaf, mae'r rhaglen Dyfodol Gwell wedi cyflawni ei nod o wella dysgu a rhannu arfer gorau rhwng gwasanaethau cyhoeddus a mudiadau VCSE. Darparodd y rhaglen gyfleoedd i'r partneriaid cyflwyno Dyfodol Gwell gydweithio â mudiadau VCSE a gwasanaethau cyhoeddus eraill ac, er nad yw'r rhan fwyaf o brosiectau wedi mynd ar ôl hwn yn fwriadol, arweiniodd hwn at rannu dysgu rhwng y partneriaid a mudiadau VCSE a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'n ymddangos mai'r prif wasanaethau sydd wedi elwa o drosglwyddo gwybodaeth yw ysgolion, a ddysgodd fwy am sut i gefnogi plant sydd ag anawsterau dysgu a sut i ennyn diddordeb y teulu cyfan, ac awdurdodau lleol, a ddysgodd lawer o gymharu eu cefnogaeth deuluol eu hunain â'r ymagweddau a fabwysiadwyd gan y prosiectau Dyfodol Gwell.

Yn y rhan fwyaf o achosion roedd y trosglwyddiad gwybodaeth hwn yn ymhlyg ac yn anniriaethol - gan arwain at ddealltwriaeth well o sut i gefnogi'r teulu cyfan ar lefel ymyrraeth gynnar ond nid o reidrwydd newid modelau cyflwyno neu ymagweddau penodol. Efallai oherwydd yr oedd y dysgu'n anniriaethol, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus sy'n blaenoriaethu eu darpariaeth 'mewn tŷ' eu hunain, mae hwn yn esbonio pam y ceir ychydig iawn o enghreifftiau o sut mae'r prosiectau Dyfodol Gwell wedi'u hefelychu neu eu prif-ffrydio fel prosiect cyfan.

Casgliadau a gwerthuso camau nesaf

Yn gyffredinol mae'r prosiectau Dyfodol Gwell wedi gwneud cynnydd da yn eu trydedd flwyddyn. Mae'r prosiectau'n mynd yn llawn sefydledig yn eu hardaloedd lleol ac yn cael eu parchu gan fudd-ddeiliaid lleol. Ar y cyfan mae'r prosiectau wedi gwneud cynnydd da gyda'r teuluoedd sydd wedi ymadael â'r gefnogaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu enghreifftiau niferus o sut mae prosiectau wedi datblygu arfer da a dysgu gwersi, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n ymddangos hefyd bod y prosiectau Dyfodol Gwell wedi llwyddo rhannu'r gwersi hyn gyda mudiadau VCSE a gwasanaethau cyhoeddus eraill, er nad yw hyn o reidrwydd wedi newid modelau cyflwyno penodol neu arwain at efelychu'r ymagweddau hyn.

Mae'r prosiectau bellach yn dechrau ar eu blwyddyn derfynol, adeg pan fydd sicrhau ariannu ar gyfer y dyfodol yn ffocws allweddol. Mae llawer wedi bod yn cael sgysiau parhaus gydag awdurdodau lleol ac ysgolion yn benodol ynglŷn â sut y gellir parhau â'r gefnogaeth. Er hynny, mae'n edrych yn annhebygol y bydd llawer o'r prosiectau'n parhau ar ôl eu grantiau Cronfa Loteri Fawr ar eu ffurf gyfredol, er y gellir cynnal rhai agweddau ar y gwasanaethau.

Dyma'r adroddiad gwerthuso olaf ond un, a chaiff yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2017. Bydd yr adroddiad terfynol yn darparu asesiad cyffredinol o gyflawniadau'r rhaglen Dyfodol Gwell. Bydd yn adrodd hefyd i ba raddau y mae'r rhaglen wedi arwain at ganlyniadau parhaus, yn seiliedig ar y canlyniadau arolwg arhydol o isafswm o 100 o fuddiolwyr a holwyd ar ôl i'w cefnogaeth ddechrau. Yn olaf, bydd yr adroddiad terfynol yn adolygu cost-effeithiolrwydd y rhaglen, ac yn cynnwys Dadansoddiad Cost-Buddion (CBA) manwl o bedwar prosiect a CBA cyffredinol ar gyfer y rhaglen.